Cylchlythyr Gyrfa Cymru

Careers Wales Newsletter

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Gweithgareddau Gyrfa Cymru yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryntawe – tymor yr hydref.

**Ffug gyfweliadau yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryntawe.**

Bydd cyflogwyr a Gyrfa Cymru yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryntawe am ddeuddydd y tymor hwn i gynnal ffug gyfweliadau gyda disgyblion Blwyddyn 11. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i ymarfer ar gyfer unrhyw gyfweliad swydd y byddant yn ei gael yn y dyfodol.

**Cyfweliadau 6$^{ed}$ dosbarth yn Ysgol Gyfun Gŵyr**

Bydd cynghorydd Gyrfa Cymru yr ysgol yn cynnal ffug gyfweliadau gyda'r rhai yn y 6$^{ed}$ dosbarth nad ydynt eisiau mynd i'r brifysgol i'w helpu i baratoi ar gyfer y byd gwaith.

**Sioe deithiol y cyfnod pontio i'r rhai ag anghenion ychwanegol**

Bydd disgyblion y Tŷ o Ysgol Gyfun Gŵyr yn ymweld â sioe deithiol y cyfnod pontio gyda chynghorydd Gyrfa Cymru yr ysgol a staff y Tŷ. Gall y bobl ifanc gwrdd a siarad â sefydliadau a all eu cynorthwyo gyda'u camau nesaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfweliadau Cyfarwyddyd Gyrfaoedd gyda Blynyddoedd 11, 12 a 13**

Mae Cynghorydd Gyrfa Cymru yr ysgol wedi dechrau gweld Blwyddyn 11, 12 a 13 er mwyn eu cynorthwyo i gynllunio eu camau nesaf. Mae Rhiannon Churchill Rhiannon.churchill@gyrfacymru.com 07890274819 ar gael ar ddydd Mawrth a dydd Iau yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yn Ysgol Gyfun Bryntawe. Mae croeso i bawb alw i mewn.

**Nosweithiau Rhieni**

Bydd cynghorydd Gyrfa Cymru yr ysgol ar gael yn noson rieni Blynyddoedd 11, 12 a 13 i gynnig cyngor a chyfarwyddyd i fyfyrwyr a'u rhieni.

**Sesiynau ABCh ynglŷn ag opsiynau ar ôl Blwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Byntawe ac ynglŷn â'r farchnad lafur gyda Blwyddyn 10.**

Bydd cynghorydd Gyrfa Cymru yn cynnal sesiynau gyda Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i'w helpu i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth am eu dyfodol. Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol iawn ar gael yn www.gyrfacymru.com www.careerswales.com. Ewch i dudalennau Facebook a Twitter Gyrfa Cymru hefyd

**Nosweithiau agored a Dyddiadau Pwysig**

I gael rhagor o wybodaeth am nosweithiau agored a dyddiadau pwysig yr ysgol a'r coleg, cysylltwch â Rhiannon Churchill – cynghorydd Gyrfa Cymru Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryntawe
Rhiannon.churchill@gyrfacymru.com 07890274819

Cylchlythyr Gyrfa Cymru
Careers Wales Newsletter

Gyrfa Cymru
Careers Wales